Department for Environment Food & Rural Affairs

# Arferion contractiol yn y sector cnydau a gynaeafir â chombein yn y Deyrnas Unedig

## Ymgynghoriad

**Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei lansio ar 10 Rhagfyr ac ar agor am 8 wythnos, gan gau ar 4 Chwefror 2026.**

Rydym yn gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydym hefyd yn cefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sydd gyda'r gorau yn y byd.

Adran weinidogol yw Defra, a gefnogir gan 34 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Pan fyddwn yn nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint sydd dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn:

CCfairdealings@defra.gov.uk

neu

Department for Environment, Food and Rural Affairs
Combinable Crops Contract Consultation Team
Seacole Block
2nd Floor
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Cefndir | 4 |
| 2. Pwrpas yr ymgynghoriad | 5 |
| 3. Cwmpas yr ymgynghoriad | 5 |
| 4. Y broses ymgynghori | 6 |
| Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio | 6 |
| Amseriad a hyd yr ymgynghoriad hwn | 6 |
| Ymateb i’r ymgynghoriad hwn | 6 |
| 5. Ar ôl yr ymgynghoriad | 8 |
| 6. Cwestiynau’r ymgynghoriad | 10 |
| Amdanoch chi | 10 |
| Cysylltiadau Contractiol | 12 |
| Telerau Contractiol a Thegwch | 14 |
| Prisiau a thryloywder prisiau | 17 |
| Profi a safonau | 17 |
| Ymddygiad contractiol | 18 |
| Beth sydd wedi'i gynnwys mewn contractau | 19 |
| Datrys anghydfodau | 20 |
| Tryloywder Data | 21 |
| Amrywiadau yn y DU | 22 |
| Cwmpas a Chyflwyno | 23 |
| Pryderon Eraill | 23 |

# 1. Cefndir

1.1 Mae'r sector cnydau a gynaeafir â chombein yn y DU, sy'n cynnwys grawnfwydydd, hadau olew a chodlysiau, yn hollbwysig wrth sicrhau diogelwch bwyd cenedlaethol ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi ehangach. Mae'r cnydau hyn yn darparu deunyddiau crai hanfodol nid yn unig i'w bwyta gan bobl ond ar gyfer bwydo anifeiliaid a chynhyrchu ynni adnewyddadwy hefyd. Er ei bwysigrwydd, mae'r sector yn wynebu heriau mawr fel tywydd eithafol yn sgil y newid yn yr hinsawdd, costau anwadal mewnbynnau fel gwrtaith a thanwydd, ac amrywiadau mewn marchnadoedd nwyddau byd-eang. Gall y pwysau hwn ddwysáu'r anghydbwysedd sy'n bodoli yn y pŵer bargeinio rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr, a gall hyn yn ei dro danseilio sefydlogrwydd y sector.

1.2 Mae'r sector cnydau a gynaeafir â chombein yn rhan o farchnad gymhleth a chydgysylltiedig ar lefel fyd-eang sy'n cynnig cyfleoedd a heriau. Er bod y sector hwn yn aml yn fwy tryloyw na sectorau amaethyddol eraill – gyda llawer o brynwyr a marsiandwyr yn darparu contractau clir a gwybodaeth werthfawr am y farchnad – parhau mae'r heriau. Gall telerau contractiol neu delerau defnyddwyr aneglur, ynghyd â phrosesau cyfnewid data is na'r safon ar draws y gadwyn gyflenwi, gyfyngu ar fynediad cynhyrchwyr at wybodaeth amserol a chywir. Gallai hyn oll greu ansicrwydd i fusnesau fferm, a bod yn rhwystr sy'n atal cynllunio strategol a buddsoddiad hirdymor.

1.3 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd rhanddeiliaid i rannu eu safbwyntiau ar faterion allweddol gan gynnwys natur contractau cyfredol, dyrannu risg, tryloywder prisiau a data manylebau, ynghyd ag effeithiolrwydd mecanweithiau i ddatrys anghydfodau. Bydd y wybodaeth a geir yn helpu i ddatblygu polisïau'r llywodraeth a chynlluniau deddfwriaethol posibl i feithrin cadwyn gyflenwi sy'n decach, yn fwy tryloyw ac yn fwy cadarn ar gyfer pawb sy'n rhan o'r farchnad cnydau a gynaeafir â chombein.

1.4 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ledled y DU gan Defra, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a DAERA. Bydd unrhyw gamau pellach a gymerir mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r Llywodraethau Datganoledig.

# 2. Pwrpas yr ymgynghoriad

2.1 Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw casglu tystiolaeth ynghylch sut mae trefniadau cyflenwi'n gweithio ar hyn o bryd yn sector cnydau a gynaeafir â chombein y DU ac archwilio natur y berthynas rhwng cynhyrchwyr, prynwyr cyntaf a chyflenwyr mewnbynnau. Mae hefyd yn gofyn am farn ynghylch a oes modd gwella sut mae’r trefniadau contractiol hyn yn gweithio er mwyn creu cadwyn gyflenwi decach a mwy gwydn.

2.2 Fel arfer, busnesau fferm bach i ganolig eu maint, sy'n cyflenwi cynnyrch fel grawnfwydydd, hadau olew a chodlysiau, yw’r cynhyrchwyr cynradd yn y sector cnydau a gynaeafir â chombein. Bydd y cynhyrchwyr hyn yn aml yn gwerthu i nifer llai o brynwyr cyfun mwy sydd â llawer o bŵer yn y farchnad. Pan fydd anghydbwysedd o’r fath yn bodoli, gall cynhyrchwyr fod yn fregus i arferion masnachu a allai effeithio ar eu gallu i gynllunio, buddsoddi a thyfu'n gynaliadwy.

2.3 Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gefnogi sector ffermio cynhyrchiol, proffidiol a chynaliadwy. Gan adeiladu ar y rheoliadau a gyflwynwyd ar gyfer y sector llaeth a’r sector moch, a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar gyfer wyau a chynnyrch ffres, mae'r adolygiad hwn o gnydau a gynaeafir â chombein yn rhan allweddol o'r ymrwymiad hwnnw. Ei nod yw sicrhau bod cysylltiadau ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth yn dryloyw, yn deg ac yn effeithiol.

2.4 O dan Adran 29 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i gyflwyno rheoliadau sy'n mynd i'r afael ag arferion annheg a gwella tryloywder mewn cadwyni cyflenwi amaethyddol. Bydd y dystiolaeth a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn yn helpu i benderfynu a oes angen rheoliadau o'r fath ar gyfer y sectorau cnydau a gynaeafir â chombein a mewnbynnau amaethyddol, ac os felly, ar ba ffurf y dylent fod.

# 3. Cwmpas yr ymgynghoriad

3.1 Mae pwerau Delio'n Deg yn gyfyngedig o ran eu cwmpas. Dim ond i gontractau rhwng tyfwyr a’r rheini sy'n prynu eu cynnyrch y maent yn berthnasol. Nid ydynt yn ymestyn i berthnasoedd cyflenwi mewnbynnau nac i drafodion ymhellach ar hyd y gadwyn gyflenwi (er enghraifft, pan fydd marsiandwr yn prynu grawn gan ffermwr ac yna'n ei werthu i gwsmer neu brosesydd arall). Er bod yr ymgynghoriad yn holi am gontractau ar gyfer y prif fewnbynnau amaethyddol fel hadau a gwrtaith, nid oes modd rheoleiddio'r rhain o dan y pwerau. Mae llawer o fusnesau sy'n prynu cnydau a gynaeafir â chombein hefyd yn cyflenwi'r mewnbynnau hyn, felly mae casglu gwybodaeth am fewnbynnau yn rhoi darlun llawnach ynghylch sut mae contractau'n gweithio ar draws gât y fferm, a'r goblygiadau ar gyfer tegwch a thryloywder.

3.2 Felly, yn yr ymgynghoriad hwn, dim ond achosion lle mae cynhyrchydd/ffermwr yn gwerthu i brynwr y mae unrhyw gyfeiriad at “werthu” yn cyfeirio, gan mai dim ond pan mai'r cynhyrchydd/ffermwr yw'r gwerthwr y mae'r pwerau'n berthnasol.

# 4. Y broses ymgynghori

## Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio?

4.1 Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at unrhyw un sy'n ymwneud â chadwyn gyflenwi cnydau a gynaeafir â chombein. Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb arbennig i chi os ydych chi'n ymwneud â'r canlynol:

- cynhyrchu grawnfwydydd, hadau olew neu godlysiau i'w gwerthu ymlaen, naill ai fel tyfwr annibynnol neu fel aelod o grŵp marchnata neu asiant; neu
- prynu cnydau a gynaeafir â chombein at ddibenion prosesu, bwyd anifeiliaid, neu ddibenion eraill; neu
- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, gwerthu, cyfanwerthu, prosesu neu fanwerthu cnydau a gynaeafir â chombein; neu
- gweithgareddau sy'n berthnasol i'r sector cnydau a gynaeafir â chombein e.e. cyflenwi hadau neu wrtaith.

## Amseriad a hyd yr ymgynghoriad hwn

4.2 Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 10 Rhagfyr 2025 a bydd ar agor i ymatebion am gyfnod o wyth wythnos.

4.3 Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 4 Chwefror 2026. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw.

## Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

4.4 Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio hyb ymgynghori Citizen Space Defra: https://consult.defra.gov.uk/supply-chain-fairness/arferion-contractiol-yn-y-sector-cnydau-a-gynaeafi

Drwy anfon neges e-bost at: CCfairdealings@defra.gov.uk

neu

Department for Environment, Food and Rural Affairs
Supply Chain Fairness Team
Seacole Block
2nd Floor
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

4.5 Rhowch safbwyntiau, tystiolaeth ac esboniad perthnasol am eich barn, gan gynnwys unrhyw achosion lle mae gennych reswm dros gyflwyno sylwadau neu herio unrhyw beth yn yr ymgynghoriad hwn.

4.6 Rydym yn sylweddoli y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonol ar gyfer eu hymateb. Pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion gan eu haelodau neu eu cefnogwyr, yn aml drwy awgrymu geiriad i ymatebwyr ei ddefnyddio, gelwir hyn yn ymgyrch. Mae ymatebion ymgyrchoedd fel arfer yn debyg iawn neu'n union yr un fath â'i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, mae'n bosibl y dadansoddir ymatebion ymgyrchoedd ar wahân i ymatebion eraill i sicrhau bod modd crynhoi ehangder y safbwyntiau yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yr holl ymatebion sy'n rhan o ymgyrch yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o farn y cyhoedd, ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad o gryfder y teimlad ar fater. Y dull sy'n cael ei ffafrio i'r holl ymatebwyr roi eu barn (gan gynnwys lle mae ymateb yn seiliedig ar ymgyrch) yw platfform Citizen Space.

# 5. Ar ôl yr ymgynghoriad

5.1 Bydd yr ymatebion a ddaw i law erbyn 4 Chwefror 2026 yn cael eu dadansoddi a'u pwyso a'u mesur gan holl lywodraethau'r DU wrth ystyried y mesurau sy'n angenrheidiol i wella arferion contractiol yn sector cnydau a gynaeafir â chombein y DU. Bydd ymatebion ar gael i'r timau perthnasol o swyddogion polisi yn y Llywodraethau Datganoledig, a fydd yn gallu rhannu dadansoddiadau a chasgliadau gydag uwch gydweithwyr a Gweinidogion.

5.2 Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar wefan llywodraeth y DU yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i grynodeb yr ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd a pha ran o'r DU y maent yn ei chynrychioli, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

5.3 Gall Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn iddo fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat (fel cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, ac ati).

5.4 Os ydych chi'n clicio 'Ydw' wrth ymateb i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech chi ei gadw'n gyfrinachol, ac egluro'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gall gwybodaeth mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu i bartïon eraill yn unol â'r gyfraith mynediad at wybodaeth (Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIRs), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) yw'r rhain yn bennaf). Mae gennym ddyletswyddau, yn bennaf o dan yr EIRs, FOIA a DPA, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu i'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol. Oherwydd hyn, byddai eich esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer y cyfan neu ran o'ch ymateb yn ein helpu i gydbwyso'r dyletswyddau hyn ar gyfer datgelu yn erbyn unrhyw rwymedigaeth sy'n ymwneud â chyfrinachedd. Os byddwn yn cael cais am y wybodaeth a roesoch yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd eich ymateb, ond ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

5.5 Os byddwch yn clicio 'Nac ydw' wrth ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond ni fyddwn yn cyhoeddi eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat.

5.6 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â'r "Egwyddorion Ymgynghori" a nodir yng nghanllawiau Swyddfa'r Cabinet yn https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance.

5.7 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw:

Drwy e-bost at: consultation.coordinator@defra.gov.uk,

neu'n ysgrifenedig i:

Consultation Co-ordinator
Defra: Seacole Block
2nd Floor
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

## Cyfrinachedd

1. **Ydych chi'n dymuno i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? Os ydych chi, rhowch eich rhesymau.**

    - Ydw
    - Nac ydw
    - Rheswm: _____

# 6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Amdanoch chi

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu'n bennaf at dyfwyr cnydau a gynaeafir â chombein (h.y. tyfwyr sy'n cynhyrchu grawnfwydydd, hadau olew a chodlysiau), prynwyr grawn, proseswyr, ac eraill sy'n ymwneud â chadwyn gyflenwi cnydau a gynaeafir â chombein, yn ogystal â rhanddeiliaid sydd â budd ehangach yn y sector, gan gynnwys y rheini sy'n gweithredu ymhellach ar hyd y gadwyn gyflenwi fel gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd. Mae'r cwestiynau canlynol wedi'u cynllunio i helpu i ddatblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o arferion presennol a chael dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**2. Pa fath o fusnes ydych chi? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**

- Cynhyrchydd (ffermwr/tyfwr)
- Contractwr amaethyddol
- Marsiandwr Amaethyddol/Masnachwr Grawn
- Prosesydd Cynradd (e.e. melinydd/bragydd/cynhyrchydd biodanwydd/cymysgwr bwyd anifeiliaid)
- Prosesydd Eilaidd/Gweithgynhyrchwr Bwyd
- Sefydliad Cynhyrchwyr/Cwmni Cydweithredol
- Grŵp Marchnata
- Manwerthwr
- Cyfanwerthwr
- Cyflenwr mewnbynnau (hadau, gwrtaith ac ati)
- Allforiwr
- Sefydliad cynrychioladol/Sefydliad masnach
- Arall (nodwch)
- Mae'n well gen i beidio â dweud.

Mae nifer o gyrff (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel “sefydliadau cynrychioliadol”) sy'n gweithredu ar ran grwpiau o unigolion neu fusnesau yn y sector amaeth a bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys cymdeithasau masnach, cymdeithasau proffesiynol a chyrff diwydiant sy'n darparu eiriolaeth, arweiniad neu wasanaethau i'w haelodau.

3. **Os ydych chi'n sefydliad cynrychioladol, pa ran o'r gadwyn gyflenwi ydych chi'n ei chynrychioli? Dewiswch bob un sy’n berthnasol.**

    - Cynhyrchwyr/Tyfwyr
    - Marsiandwr/Masnachwyr
    - Proseswyr
    - Cyflenwyr mewnbynnau
    - Manwerthwyr
    - Allforwyr
    - Defnyddwyr
    - Arall (nodwch)
    - Ddim yn berthnasol
    - Mae’n well gen i beidio â dweud.

4. **Ble mae eich busnes wedi'i leoli? Dewiswch bob un sy’n berthnasol.**

    - Lloegr
    - Gogledd Iwerddon
    - Yr Alban
    - Cymru
    - Arall (nodwch)
    - Mae’n well gen i beidio â dweud

5. **Os ydych chi'n gynhyrchydd neu'n dyfwr, dywedwch yn fras beth yw maint eich busnes âr? (Os ydych chi'n fusnes cymysg, rhowch ateb ar gyfer eich tir âr yn unig).**

    - 0 – 10 hectar
    - 11 – 50 hectar
    - 51 – 100 hectar
    - 101 – 500 hectar
    - 501 – 1000 hectar
    - 1001+ hectar

6. **Os ydych chi'n gynhyrchydd neu’n dyfwr, sut mae eich tir âr yn cael ei ffermio?**

    - Ffermio'n uniongyrchol gennych chi (dan eich rheolaeth chi)
    - Ffermio'n gyfan gwbl gan gontractwyr
    - Ffermio'n rhannol gennych chi ac yn rhannol gan gontractwyr

- Arall (nodwch)

7. **Pa gategorïau sy'n disgrifio orau'r cnydau rydych chi'n eu cynhyrchu neu'n eu prynu? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

- Gwenith
- Haidd
- Ceirch
- Hadau olew (e.e. rêp had olew, blodyn haul)
- Codlysiau (e.e. pys, ffa, corbys)
- Arall (nodwch)

8. **Os ydych chi'n gynhyrchydd neu'n dyfwr, ydych chi'n aelod o fusnes cydweithredol ar hyn o bryd?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn berthnasol

9. **Os ydych chi'n gwerthu cnydau a gynaeafir â chombein, faint o wahanol fusnesau ydych chi wedi gwerthu iddynt yn ystod y 12 mis diwethaf?**

- 1
- 2 i 4
- 5 i 7
- 8 i 10
- Mwy na 10
- Ddim yn berthnasol
- Mae'n well gen i beidio â dweud

## Cysylltiadau Contractiol

Mae'r adran hon yn gofyn am eich barn ynghylch cyflwr cysylltiadau contractiol yn y sector yn gyffredinol.

10. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod pŵer bargeinio rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr cnydau a gynaeafir â chombein (marsiandwyr) yn weddol gytbwys?** Rhowch resymau ac enghreifftiau os oes modd i gefnogi eich ateb.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

- Anghytuno
- Anghytuno’n gryf

11. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr arferion contractiol presennol yn y gadwyn gyflenwi cnydau a gynaeafir â chombein yn deg ac yn dryloyw?** Rhowch resymau ac enghreifftiau i gefnogi eich ateb os oes modd.

    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

Rydym yn deall bod contractau pro-fforma, a ddarperir gan gyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant, yn cael eu defnyddio'n aml fel sail ar gyfer cytundebau pan fydd tyfwyr yn gwerthu cnydau a gynaeafir â chombein. Mewn llawer o achosion, mae'r contractau safonol hyn yn cael eu hategu gan delerau ac amodau ychwanegol y cytunwyd arnynt rhwng y partïon, sy'n gallu amrywio yn dibynnu ar y prynwr, y cnwd, neu drefniadau masnachol penodol.

12. **Ydych chi'n credu bod angen i'r llywodraeth ymyrryd i reoleiddio contractau yn y sector hwn?** Esboniwch eich rhesymeg.

    - Ydw
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod

# Telerau Contractiol a Thegwch

Yn y sector cnydau a gynaeafir â chombein, deallwn mai'r math mwyaf cyffredin o gontract yw negodi llafar, wedi'i ddilyn gan gontract ysgrifenedig cyn cyfnewid nwyddau. Rydym yn awyddus i archwilio pa mor gyffredin yw trefniadau eraill, ac mae'r adran hon yn gofyn am y mathau o gytundebau y byddwch chi'n eu defnyddio wrth werthu cnydau neu brynu mewnbynnau.

13. **Pa fath o gytundeb gwerthu sydd gennych chi ar gyfer gwerthu cnydau? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

    - Contract ysgrifenedig
    - Cytundeb llafar/anffurfiol
    - Arall (nodwch)
    - Ddim yn gwybod
    - Ddim yn berthnasol

14. **Fel busnes sy'n gwerthu cnydau a gynaeafir â chombein, pa fath o gontract ydych chi wedi'i ddefnyddio dros y 5 mlynedd diwethaf? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

    - Contract ar y pryd (spot)
    - Blaen-gontract
    - Contract cyfun
    - Contract aml-flwyddyn
    - Arall (nodwch)
    - Ddim yn berthnasol

15. **“Fel busnes sy'n gwerthu neu'n prynu cnydau a gynaeafir â chombein, mae'r telerau a'r amodau y cytunwyd arnynt yn fy nghontract, boed y contract yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi neu ddim, yn benodol ac yn glir.” I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad hwn?** Rhowch resymau am eich ateb.

    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf
    - Ddim yn gwybod
    - Ddim yn berthnasol

16. **“Er mwyn cael llinell sylfaen gyfreithiol ar draws y sector i gyd, dylid cael contract ysgrifenedig ar gyfer pob cytundeb gwerthu rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr.” I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad hwn?** Rhowch resymau ac enghreifftiau i gefnogi eich ateb os oes modd.

- Cytuno’n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno’n gryf
- Ddim yn gwybod

17. **“Rwy'n teimlo bod y grym gennyf i negodi telerau ac amodau yn y contract (e.e. telerau talu, amodau cyflenwi) er mwyn diwallu anghenion fy musnes i.” I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad hwn?** Rhowch resymau ac enghreifftiau i gefnogi eich ateb os oes modd.

- Cytuno’n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno’n gryf
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Mae gwahanol ffyrdd o werthu cnydau a ganaeafir â chombein. Er enghraifft, gellir cytuno ar gontractau ymlaen llaw am bris sefydlog cyn eu cynaeafu, eu gwerthu am bris y farchnad ar y pryd pan fyddant yn barod, neu eu gwerthu fel rhan o drefniant grŵp neu gydweithredol. Mae'r cwestiwn yn ystyried i ba raddau y gall busnesau ddewis y math o gontract sy'n gweddu orau i'w hanghenion nhw.

18. **“Rwy'n teimlo bod y grym gennyf i ddewis y math o gontract (e.e. blaen-gontract, contract cyfun ac ati) sy'n gweddu orau i anghenion fy musnes.” I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad hwn?** Rhowch resymau ac enghreifftiau i gefnogi eich ateb os oes modd.

- Cytuno’n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno’n gryf
- Ddim yn gwybod

- Ddim yn berthnasol

19. **Os ydych chi'n gwerthu cnydau a gynaeafir â chombein, a yw eich contract yn cynnwys gofyniad i farsiandwyr roi rhybudd rhesymol ynghylch pryd y bydd grawn yn cael ei gasglu?** Esboniwch eich ateb.

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod

20. **Os ydych chi'n gwerthu cnydau a gynaeafir â chombein, a yw eich contract yn darparu ar gyfer digolledu neu daliadau ychwanegol os bydd grawn yn cael ei gasglu y tu allan i'r dyddiadau symud y cytunwyd arnynt?** Esboniwch eich ateb.

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod

Rydym yn deall bod penderfyniadau ynghylch pryd mae cnydau a gynaeafir â chombein yn cael eu marchnata, er enghraifft, cyn cynaeafu, yn syth ar ôl cynaeafu neu'n ddiweddarach, yn gallu amrywio yn dibynnu ar y strategaeth fusnes, amodau'r farchnad a gofynion prynwyr. Rydym yn awyddus i ddeall amseriad y penderfyniadau marchnata hyn a sut maent yn cael eu gwneud ar draws y sector fel arfer.

21. **Fel busnes sy'n gwerthu cnydau a gynaeafir â chombein, ar ba gam fyddwch chi fel arfer yn cytuno ar gontract ar gyfer eich cynnyrch (h.y., gosod y pris a maint y llwyth gyda phrynwr)? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol).**

- Cyn cynaeafu (cyn plannu'r cnwd)
- Cyn cynaeafu (cyn cynaeafu'r cnwd)
- Yn syth ar ôl cynaeafu
- Yn ddiweddarach ar ôl cynaeafu (wythnosau neu fisoedd ar ôl cynaeafu)
- Fel rhan o drefniant blaen-werthu neu ar gyfer y dyfodol
- Arall (nodwch)
- Ddim yn berthnasol

22. **Fel busnes sy'n gwerthu cnydau a gynaeafir â chombein, ar ba gam fyddwch chi fel arfer yn disgwyl gwerthu (cyfnewid/cyflenwi) eich cynnyrch? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol).**

- Yn syth ar ôl cynaeafu
- Yn ddiweddarach ar ôl cynaeafu (wythnosau neu fisoedd ar ôl cynaeafu)
- Fel rhan o drefniant blaen-werthu neu ar gyfer y dyfodol
- Arall (nodwch)
- Ddim yn berthnasol

## Prisiau a thryloywder prisiau

23. **Wrth werthu cnydau, ydych chi'n teimlo eich bod yn cael digon o gyfle i negodi'r pris a gynigir gan brynwyr?** Esboniwch eich ateb a rhowch enghreifftiau os oes modd.

    - Ydw
    - Nac ydw
    - Weithiau
    - Ddim yn berthnasol

24. **Pan fydd prynwyr yn cynnig pris am gnydau, fyddan nhw'n rhoi gwybodaeth glir ynghylch y berthynas rhwng y pris hwnnw a meincnodau'r farchnad (e.e., prisiau'r dyfodol, prisiau ar y pryd, galw)?** Rhowch enghreifftiau os oes modd.

    - Bob amser
    - Yn aml
    - Weithiau
    - Ddim yn aml
    - Byth

## Profi a Safonau

Wrth werthu cnydau, deallwn y gall y gallu i gadarnhau ffactorau allweddol fel pwysau, manylebau ansawdd, a'r broses o ddanfon y cynnyrch, fel cyflwr y cerbyd sy’n casglu, effeithio'n sylweddol ar werth y cynnyrch a chydymffurfedd â'r contract. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am farn ynghylch sut mae arferion presennol yn gweithio ac a ydynt yn deg, yn dryloyw ac yn gytbwys.

25. **Wrth werthu cnydau, a yw'r broses a ddefnyddir i bennu manylebau ansawdd terfynol (e.e. lleithder, cynnwys protein ac ati) yn foddhaol?**

Esboniwch eich rhesymeg a rhowch enghreifftiau i gefnogi eich ateb os oes modd.

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod

Mae safonau glendid cerbydau yn ofyniad gorfodol o dan y rhan fwyaf o gynlluniau sicrwydd ac ardystio grawn. Rhaid i lorïau, trelars a cherbydau eraill a ddefnyddir i gludo cnydau fod mewn cyflwr addas i'w symud, ac osgoi halogiad gan ddeunyddiau dieithr, gweddillion neu lwythi blaenorol.

26. **Wrth werthu cnydau, sy'n cael eu casglu gan y prynwr, ydych chi'n teimlo eich bod yn cael digon o gyfle i sicrhau bod y tu mewn i'r trelar yn lân?** Esboniwch eich rhesymeg a rhowch enghreifftiau i gefnogi eich ateb os oes modd.

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

## Ymddygiad contractiol

Cyn cytuno ar gontract ffurfiol, gall partïon negodi telerau a phrisiau, ac mewn rhai achosion bydd angen amodau penodol gan werthwyr (er enghraifft, arferion penodol ar y fferm ei hun). Rydym yn awyddus i glywed a yw'r broses hon yn cael ei chynnal mewn ffordd deg a thryloyw, a sut mae ymddygiad ar y cam hwn yn effeithio ar y cytundeb terfynol, gan gynnwys a fydd unrhyw anghysondebau'n codi rhwng yr hyn y cytunwyd arno ar lafar a'r hyn sydd wedi'i gofnodi yn y contract ysgrifenedig.

27. **Wrth werthu cnydau, ydych chi wedi profi arferion annheg yn ystod y cam negodi, cyn cytuno ar gontract (er enghraifft, newidiadau munud olaf i delerau neu bwysau i dderbyn amodau anffafriol)?** Rhowch resymau ac enghreifftiau i gefnogi eich ateb os oes modd.

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

## Beth sydd wedi'i gynnwys mewn contractau

Fel y soniwyd yn flaenorol, rydym yn deall bod contractau safonol yn cael eu defnyddio'n aml yn y sector, weithiau ochr yn ochr â thelerau ac amodau ychwanegol. Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym yn awyddus i ddeall a yw'r telerau hyn yn cael eu hystyried yn addas i'r diben, neu a oes cymalau y dylid eu cynnwys neu eu gadael allan. Er enghraifft, gall rhai contractau gynnwys darpariaethau sy'n cyfyngu ar ble neu gan bwy y gall tyfwyr brynu mewnbynnau allweddol fel hadau, gwrtaith, neu gynnyrch i ddiogelu cnydau. Hoffem wybod pa mor gyffredin yw cymalau o'r fath, a pha effaith y gallant ei chael ar hyblygrwydd a chostau a'r penderfyniadau ar gyfer busnesau fferm.

28. **A oes unrhyw gymalau a ddylai fod yn orfodol mewn unrhyw gontract?** Os oes, rhowch fanylion.

    - Oes
    - Nac oes
    - Ddim yn siŵr

29. **A oes unrhyw gymalau a ddylai gael eu gwahardd o unrhyw gontract?** Os oes, rhowch fanylion.

    - Oes
    - Nac oes
    - Ddim yn siŵr

## Datrys Anghydfodau

Mae'r adran hon yn gofyn sut yr ymdrinnir ag achosion o anghytuno (e.e. ynghylch llwyth a wrthodwyd). Pan fydd anghydfodau busnes yn codi, mae'n bwysig bod gan bartïon fynediad at ffyrdd teg ac effeithiol o'u datrys. Mewn llawer o achosion, gellir setlo materion yn anffurfiol drwy drafodaeth uniongyrchol, ond gellir defnyddio opsiynau mwy ffurfiol hefyd (fel cymrodeddu neu achosion llys). Mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y mae anghydfodau'n cael eu datrys yn ymarferol ar hyn o bryd, ac a yw'r mecanweithiau presennol yn diwallu anghenion pawb dan sylw.

30. **Os ydych chi wedi cael profiad o anghydfod yn ymwneud â chontract, sut cafodd yr anghydfod ei ddatrys? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

    - Trafodaeth anffurfiol
    - Cymrodeddu
    - Achosion llys
    - Doeddwn i ddim yn gallu datrys y mater drwy unrhyw un o'r dulliau uchod
    - Dydw i ddim wedi cael anghydfod

31. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y mecanweithiau presennol ar gyfer datrys anghydfodau yn deg, yn fforddiadwy ac yn ddiduedd?** Rhowch resymau am eich ateb, gan gyfeirio at unrhyw brofiadau o brosesau penodol fel cymrodeddu corff-diwydiant.

    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

32. **A ddylai rheoliadau fynnu bod pob contract yn cynnwys gweithdrefn glir ar gyfer datrys anghydfodau?**

    - Dylai
    - Na ddylai
    - Ddim yn siŵr

## Tryloywder Data

Rydym yn deall bod ffermwyr yn dibynnu ar adborth amserol a chywir gan brynwyr er mwyn gwneud penderfyniadau am gyflenwi cynnyrch yn y dyfodol. Gall oedi cyn derbyn gwybodaeth am faterion yn ymwneud ag ansawdd arwain at broblemau cyn y gellir rhoi sylw iddynt. Rydym yn awyddus i gael gwybod a yw'r ddarpariaeth bresennol o ran data yn ei gwneud yn bosibl i wneud penderfyniadau effeithiol.

33. **I ba raddau ydych chi'n cytuno bod data amserol a manwl ar gael am bob llwyth (fel pwysau, ansawdd, pris, didyniadau, ac ati).** Rhowch unrhyw sylwadau ar sut a phryd y caiff y wybodaeth hon ei rhannu ac unrhyw broblemau rydych chi wedi dod ar eu traws.

    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

34. **A ddylai contractau ar gyfer prynu cnydau a gynaeafir â chombein gynnwys gofyniad i brynwyr ddarparu data allweddol pan fydd gwerthwr yn bodloni gofynion contract (e.e. lleithder ac ati) i'r gwerthwr o fewn cyfnod penodol?**

    - Dylai
    - Na ddylai
    - Ddim yn gwybod

35. **A ddylai contractau ar gyfer prynu cnydau a gynaeafir â chombein gynnwys gofyniad i brynwyr ddarparu data allweddol pan na fydd y gwerthwr yn bodloni gofynion contract (h.y. ar gyfer didyniadau neu wrthodiadau) i'r gwerthwr o fewn cyfnod penodol?**

    - Dylai
    - Na ddylai
    - Ddim yn gwybod

**36. Os dylai, pa ddata ddylai gael ei gynnwys a pha amserlen fyddai'n rhesymol?**

- Ar unwaith (h.y. yr un pryd ag y mae ar gael i'r marsiandwr)
- 1 diwrnod gwaith
- 2 ddiwrnod gwaith
- Amser arall (rhowch fanylion)

## Amrywiad o fewn y DU

Mae sector cnydau a gynaeafir â chombein y DU yn berthnasol i’r pedair gwlad fel rhan o un farchnad fewnol. Er bod sut mae'r sector yn gweithredu yn debyg ar y cyfan, mae’n bosibl y bydd gwahaniaethau mewn arferion masnachu, seilwaith neu ddeinameg y farchnad mewn gwahanol rannau o'r DU.

**37. Mae rheoliadau'n aml yn cael eu cyflwyno yr un fath ar draws holl wledydd y DU. A oes unrhyw reswm pam y dylid defnyddio dull gwahanol ar gyfer y sector cnydau a gynaeafir â chombein?** Rhowch resymau dros eich ateb.

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

## Cwmpas a Chyflwyno

Os bydd unrhyw reoliadau'n cael eu cyflwyno, rydym yn awyddus i sicrhau eu bod yn gweithio'n dda ar draws y sector cyfan. Rydym yn cydnabod bod busnesau ffermio a bwyd yn aml yn wynebu heriau gwahanol i'r rheini sydd ymhellach ar hyd y gadwyn gyflenwi, a bod ymyriadau newydd weithiau'n gallu arwain at ganlyniadau annisgwyl. Gallai rheoliadau a gyflwynir o dan y pwerau Delio'n Deg, er enghraifft, wahardd defnyddio cymalau contract sy'n cael eu hystyried yn annheg, neu fynnu bod busnesau'n darparu gwybodaeth neu ddata penodol i wella tryloywder a sicrwydd i'r ddwy ochr. Rydym yn gofyn am eich barn ynghylch sut y gallai gofynion o'r fath effeithio arnoch chi, gan gynnwys unrhyw amser neu gostau ychwanegol, yn ogystal ag unrhyw fanteision ehangach posibl.

38. **Pe bai gofynion deddfwriaethol newydd yn cael eu cyflwyno, ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar fusnesau?** Rhowch resymau am eich ateb gan gynnwys, os yw'n bosibl, unrhyw amcangyfrif o gostau neu arbedion ychwanegol.

    - Ydw
    - Nac ydw
    - Ddim yn siŵr

39. **Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar ddefnyddwyr a allai godi yn sgil cyflwyno rheoliadau yn y sector hwn?** Rhowch resymau ac enghreifftiau os oes modd ar gyfer eich ateb.

    - Ydw
    - Nac ydw
    - Ddim yn siŵr

## Pryderon eraill

40. **Pe bai rheoliadau newydd yn cael eu cyflwyno, faint o amser ydych chi'n ei ragweld fyddai ei angen i wneud newidiadau i fusnesau er mwyn cydymffurfio â nhw?** Rhowch resymau am eich ateb.

    - O dan 12 mis
    - 13 - 24 mis
    - 25 - 36 mis
    - Arall (eglurwch)
    - Ddim yn gwybod
    - Ddim yn berthnasol

41. **A oes unrhyw faterion, pryderon neu brofiadau ychwanegol sy'n ymwneud â chysylltiadau busnes yn y gadwyn gyflenwi cnydau a gynaeafir â chombein nad ydynt, yn eich barn chi, wedi cael sylw yn yr ymgynghoriad hwn?** Rhannwch unrhyw fanylion, enghreifftiau neu awgrymiadau perthnasol.